

Sgript Llwybr Sain: Llwybr yr Arglwyddes Mair

Croeso i Lwybr Sain Llwybr yr Arglwyddes Mair, sy'n cychwyn o faes parcio'r Fainc Lifio ym Mharc Coedwig Gwydir.

Trac 1: 'Arglwyddes' a thirfeddianwraig yn ei harddegau (*uwchben maes parcio'r Fainc Lifio*)

Lady Mary: “Rwyf wedi cerdded y llwybr yma llawer o weithiau ers marwolaeth fy nhad. Rwyf yn gallu meddwl a breuddwydio yma. Rwyf wrth fy modd â'r capel. Mi adeiladodd fy nhad, Syr Richard Wynn, y 4ydd Barwn, y capel ym 1673, y flwyddyn cyn ei farwolaeth. Yno rwyf yn teimlo agosaf ato. Maddeuwch i mi, ble mae fy maners? Fy enw i ydi'r Arglwyddes Mair Wynn. 'Dwi'n 16 oed ac rydw i'n drist oherwydd mi fydd yn rhaid i mi adael y dyffryn hardd yma cyn hir. Dewch am dro hefo fi, a chewch glywed mwy am fy nheulu.

Roedd Syr Richard, fy nhad annwyl, yn ddyn bonheddig. Roedd yn ddyn â chredoau cryf. Mi aeth i'r carchar i sicrhau bod ein brenin bonheddig, Siarl yr Ail, yn adennill ei orsedd gyfreithiol. Roedd yn ŵr ffyddlon i fy mam annwyl, anesmwyth. Gallaf ond gobeithio y bydd fy mhriodas i mor gariadus.

Bu farw fy mam ddwy flynedd cyn iddo fo farw. Rydw i'n dal i dybio a wnaeth farw o dor-calon? Rŵan, yr wyf bron y cyfan sydd ar ôl o'n teulu. Rydw i'n trio peidio â bod yn unig. Canys onid ydwyf i yn ferch i'r mawreddog Syr Richard Wynn. Mae gen i'r parc ceirw, y caeau hop a'r gwinllannoedd. Mae gen i bron i 80 mil o aceri. Fi, yr Arglwyddes Fach, y tirfeddianwraig fwyaf yng Ngogledd Cymru. Ac eto, byddaf yr olaf o deulu Wynn o Wydir. Yn fuan iawn, bydd yn rhaid i mi fynd at fy ngŵr newydd, Robert Bertie. O, dwi'n gwybod – yn 16 oed ei bod hi'n hen bryd i mi briodi, ond bydd gen i hiraeth am y goedwig, ein hafdy hardd ar y bryn, ac adleisiau yma o fy nheulu annwyl. A beth am weddill fy nheulu? Byddai'r tir hwn yn dal i fod yn drwchus hefo herwyr oni bai am fy hynafiaid, Maredudd. Ac mae pawb yn gwybod am enw da fy hen daid, Syr John Wynn. Bu'n diddanu llawer o bobl nobl wrth iddynt basio ar eu taith.

Pan oeddwn i'n ferch fach, roedd fy mam yn adrodd hanesion wrtha i, fel hanesion y cychod gwaelod gwastad oedd yn dod i fyny'r afon Conwy, gan ddod â llwythi o sbeisys a gwinoedd da, ffrwythau egsotig, a hyd yn oed tybaco o dramor i ddrws Syr John, sef Castell Gwydir. Gadewch i ni gerdded ychydig mwy.”

Trac 2: Perthyn i herwr o dras bonheddig (*ar y tro i'r fainc â golygfan*)

Male voice: “You’re not one of Herbert’s swag-bellied louts, are you?”

Lady Mary: “Glywsoch chi hynna? Tybed ai ysbryd un o’r herwyr? Efallai Dafydd ei hun. Dafydd ap Siencyn. Pwy sydd ddim yn gwybod am yr enw hwnnw? Uchelwr a herwr. Dau gan mlynedd yn ôl, roedd o a’i gang yn cuddio rhag eu gelynon mewn ogof yn uwch i fyny’r bryn yma, Carreg y Gwalch. Roeddent yn wŷr y tu allan i’r gyfraith. Roeddent yn casáu’r Saeson am ddwyn pŵer gan y Cymry. Roedd pobl leol yn dweud, ar ôl pob sgarmes, byddai o a’i ddynion yn diflannu i mewn i’r goedwig ac yn gwisgo mewn gwyrdd, a byddent yn esgus bod yn dylwyth teg i godi ofn ar bobl oedd yn mynd heibio. A milwyr Saesneg. Roedd Dafydd yn saethwr enwog, ac yn un mor dalentog â’r herwr chwedlonol Saesneg, Robin Hood. Dywedir iddo unwaith ddod ar draws grŵp o filwyr mewn cylch yn edrych ymlaen at ginio o’r pot. Mi dynnodd llyn y bwa yn ôl, ac anelodd y saeth i ganol y pot, gan dasgu’r bwyd a llosgi wynebau’r milwyr. Mae llawer yn Llanrwst a ledled Cymru yn ystyried Dafydd yn arwr.

Yn hanes ein teulu, mae fy hen daid, Syr John, yn ysgrifennu bod Dafydd yn berthynas pell i ni. Ac unwaith, mi wnaeth ymladd ochr yn ochr hefo fy nghariad, leuan ap Robert, yn ystod y rhyfeloedd hir rhwng teulu’r Lancastriaid a’r Efrogwyr. Pan wnaeth Edward gael gafael ar yr orsedd, roedd Conwy ar ochr y Brenin Harri, a chafodd ei ddi-goroni. Ymunodd fy hynafiaid, leuan, hefo Dafydd ac fe losgwyd y dref lorcaidd, sef Dinbych. Roedd y Brenin Edward wedi cynhyrfu gymaint, mi ddywedodd wrth un o’i ddynion, Syr William Herbert o Raglan, i ddymchwel Conwy i gyd. Gwasgarodd y Lancastriaid o flaen ei fyddin. Bu’n rhaid i fy hynafiaid ffoi a lawr yn y dyffryn o’ch blaen, mi losgwyd pob coeden, pob llwyn a phob tŷ i’r llawr gan Syr William a’i fyddin. Maent yn dweud y gallai’r mwg a’r fflamau gael eu gweld o mor bell i ffwrdd â Chaer. Mae’r enw William Ddu yn dal i godi ofn ar rhai pobl yn y dyffryn. Maent yn dweud bod yna drysor sy’n dal heb gael ei ddarganfod rhywle yng nghromenni tywyll ogof Dafydd ap Siencyn yng Ngharreg y Gwalch. Mae’r trysor yno i chi, dim ond os ydych chi’n ddigon dewr i fynd ar ôl ysbryd Dafydd a’i saethyddion.”

Trac 3: O wlad y lladron i ystâd deuluol (*Ile mae'r llwybr cul yn gadael y ffordd goedwig ar letraws*)

Lady Mary: “Efallai ei bod yn anodd credu, ond nid ydi fy nheulu wedi bod yn byw yn y dyffryn erioed. Daethom yma brin ddau gan mlynedd yn ôl, ond rydym yn sicr wedi newid y lle ers y daethom. Er gwell, dwi'n meddwl. Fy hynafiaid, Maredudd, mab Ieuan, oedd y cyntaf. Roedd gan y teulu eisoes ystadau mawr yn Eifionydd. Felly, pan welodd y cyfle i brynu tir a setlo yn rhywle arall, mi gipiodd Maredudd y cyfle. Yn yr adegau hynny, roedd dyffryn Conwy yn lle gwahanol iawn. Roedd y tir hwn i gyd yn nwylo'r lladron. Am ugain milltir i unrhyw gyfeiriad, doedd neb yn ddiogel rhag y lladron mileinig hyn.

Sôn am agos!

Nid oedd y lladron mileinig yn poeni fy hynafiad dewr, Maredudd. Dywedodd y byddai'n well ganddo ymladd herwyr a lladron na'i berthnasau agos. Dyma oedd ei gyfle mawr. Doedd dim ffermwyr ar gyfyl y lle. Roedd y pla wedi lladd rhai, ac roedd gweddill y werin ufudd wedi ffoi rhag y lladron. Felly, roedd tir ar gael os oeddech chi'n ddigon penderfynol, ac yn ddigon dewr i roi cynnig arni. Roedd yn fusnes peryglus. Hyd yn oed pan roedd yn mynd i'r eglwys, roedd yn gadael ei dŷ dan glo ac wedi'i warchod. Mi roedd hefyd yn rhoi milwyr ar y tir uchaf. Os byddai unrhyw un yn ymosod ar y tŷ, byddai'r milwyr yn seinio i lawr ac yn ymgynnull y gynulleidfa. Wrth benlinio i weddïo, byddai Maredudd mewn arfwisg lawn hefo'i gleddyf yn barod. Roedd o a'i deulu'n teithio gyda gwarchodwr personol ac ugain o saethyddion. Ar y dechrau, roedd yn byw hefo'i wragedd, meistresi ac ugain o blant yn Nolwyddelan. Pan roedd y teulu angen mwy o le, symudodd y teulu cyfan i Gastell Gwydir, sy'n dal i fod yn gartref i'r teulu heddiw.

Ymhen amser, roedd Maredudd wedi rheoli'r tir gwyllt ac afreolus hwn. I lawer, roedd yn arwr, yn enwedig i fy hen daid, Syr John Wynn. Maredudd oedd yr un a wnaeth ein stadau ac a adeiladodd Gastell Gwydir.

Wrth gwrs, digwyddodd hyn i gyd amser maith yn ôl, ond cafodd ei nodi yn llyfr fy hen daid am hanes ein teulu. Daeth yn angenrheidiol i bawb yn y teulu, a Syr John ei hun wnaeth yr enw Wynn i atseinio drwy gydol y dyffryn a thu hwnt. Byddaf yn sôn rhywfaint mwy amdano'n fuan.”

Trac 4: Lawnt fowlio hanesyddol yn y goedwig (*lawnt fowlio*)

Lady Mary – “Mi fuaswn i wrth fy modd pe tasai'r daith gerdded hon wedi'i henwi ar fy ôl i, ond mae rhai yn dweud ei fod yn deyrnged i fy hen fodryb, Arglwyddes Mary Mostyn. Pwy sydd i wybod? Dwi'n hoffi meddwl am holl Wynnaiid Gwydir yn pasio drwy'r amser ar y daith goedwigoedd hon. Yma, mae mor hawdd i lithro'n ôl i'r gorffennol, yn ôl i ddyddiau fy hen daid.”

Male voice 2 – “Arglwydd Leicester, bowliad dda iawn Syr. Byddwch yn dwyn y gêm i ffwrdd oddi wrthyf yn sicr..”

Lord Leicester – “John, rydych chi'n gor-ganmol. Mae'r dydd eto i ddod pan fyddaf yn eich curo chi ar eich tir eich hun.”

Male voice 2 - “Efallai. Rwyf yn credu bod y fantais gennych chi, ond.... ha ha ha ha. Dyna ni. Efallai bod eto i gymryd y fantais.”

Lord Leicester – “Campus iawn, John.”

Male voice 2 – “Saethiad lwcus, fy Arglwydd..”

Lord Leicester – “Lwcus ai peidio, mae'r fuddugoliaeth gennych chi.”

Male voice 2 – “Ydi, felly mae'n ymddangos.”

Lord Leicester – “Ac mewn cyfnewid teg, efallai ychydig bach mwy o'r gwin blasus.”

Male voice 2 – “Wrth gwrs. A gaf i awgrymu rhai o'r melysion hefyd? Maent newydd gyrraedd o Naples.”

Lord Leicester – “Mm. Hyfryd. Pa hyfrydwch arall sydd gennych chi?”

Male voice 2 – “Dim ond y bore ma, daeth llwyth gwych o gnau Ffrengig, olew salad a phob math o sbeisys. Efallai, fy Arglwydd, yr hoffech fynd â rhywfaint i Lundain hefo chi?”

Lord Leicester – “Bydd hamper yn neis iawn.”

Male voice 2 – “Caf ddetholiad wedi'i baratoi i chi i'w fwynhau gyda'ch ffrindiau yn y llys.”

Lord Leicester – “Ardderchog, fy ffrind. Nawr, oes gennym ni amser am gêm fach arall?”

Lady Mary – “Roedd fy hen daid wrth ei fodd â bowls. Roedd ganddo lawnt a osododd ei hun. Hanner can mlynedd yn ôl, bu farw ym 1627. Ond rydw i’n dal i’w weld yn fy meddwl pan gerddaf i fyny yn y fan yma. Rwyf wedi bod yn unig ers marwolaeth fy annwyl rieni. Fy unig gysur yw ymysg y coed yma, ac yn fy nychymyg. Pan roedd fy hen daid yn fyw, roedd y goedwig gyfan yn llawn pobl, yn enwedig yma ar y lawnt fowlio. Rwyf wedi clywed sôn am y gwleddoedd. Roedd Syr John yn symud mewn cylchoedd disglair. Y bobl enwog oedd yn pasio’r ffordd hyn ar eu ffordd i Iwerddon neu hyd yn oed i America. Roedd llawer ohonynt yn aros yn ein tŷ haf gwych, sef Gwydir Uchaf. Cymerwch un olwg olaf ar yr olygfa. Os ydych chi’n dawl iawn ac yn llonydd, efallai y byddwch hefyd yn clywed sŵn gêm o fowlio yn y pellter, ac aroglîr arogleuon prynhawn o haf yn llithro ar draws y blynyddoedd.”

Trac 5: Hynafiad bonheddig ond dadleuol (*cyn cyrraedd yn ôl i faes parcio'r Fainc Llifio lle gellir gweld rhywfaint o dŷ haf Gwydir Uchaf*)

Lady Mary: “Tybed a ydych yn credu mewn ysbrydion? Maent yn dweud bod ysbryd Syr John Wynn yn dal yn yr ardaloedd yma. Efallai mai'r sŵn yna oedd ei sŵn o ar y ffordd adref i'r castell. Fyddai hynny ddim yn fy synnu i. Roedd yn ddyn mawreddog, byddai rhai yn dweud ei fod yn ormesol. Roedd yn ddyn tal, llydan, ac roedd wastad yn gwisgo'n gain. Gwisgai'r lledr Sbaeneg orau am ei draed, cotiau felfed wedi'u leinio â thaffeta, gwasgodau coch cwiltiog a sanau lliw perl. Unwaith i chi gwrdd â Syr John Wynn, roeddech yn annhebygol iawn o'i anghofio. Dywed rhai ei fod yn deyrn o ddyn. Maent yn dweud bod ei enaid wedi'i felltithio, a'i fod yn gorwedd ar waelod rhaeadr ym Metws y Coed. Dwi'n meddwl eu bod wedi drysu ei natur gadarn gyda theyrnedd. Ni fyddai dyn digalon wedi sefydlu ysgol ramadeg ac elusendai yn y dref. Dydi hi ddim yn wir fod gan bob dyn penderfynol elynion? Mi roedd yn tueddu i gael ei hun ar ochr anghywir ei gyfoedion. Pan ofynnodd i Esgob Morgan gadarnhau'r brydles i reithordy Llanrwst, mi wrthododd yr Esgob, ac ysgrifennodd yn ôl, “Chi, y lleidr halogodd Eglwys, dinistriol, twyllodrus o Esgobaeth. Rhwystwr pregethwyr ac ysgolheigion da”. Mae'n rhaid bod y llythyr hwnnw wedi corddi Syr John. Teulu Syr John oedd un o'r teuluoedd Cymreig bonheddig cyntaf. Adeiladodd ein hafdy hardd yma yng Ngwydir Uchaf ym 1604 i gartrefu ei westeion mewn steil. Yr oedd y tŷ mwyaf mawreddog yng Ngwynedd. Er bod ein tiroedd yn darparu incwm da bob amser, roedd gan John ddyled drwy'r amser. Erbyn iddo farw ym 1627, roedd mewn dyled o £25,000. Hyd yn oed heddiw, mae £25,000 yn ffortiwn enfawr. Mi wariodd lawer o'r arian yn y llys yn amddiffyn ei enw teuluol. Yr oedd yn fwyaf llwyddiannus mewn swydd gyhoeddus. Pan ddaeth cyfreithiau newydd yn caniatáu i dirfeddianwyr Cymraeg i ymuno Senedd, mi ddaeth yn AS yn gyflym. Mae'n rhaid ei fod wedi bod mor falch pan urddwyd o'n farchog ym 1606. Ac yna, ym 1611, cafodd yr anrhydedd mawr o gael ei wneud yn farwn, un o'r marchogion uchaf yng Nghymru. Nid oedd stop ar fy hen daid mewn gwirionedd. Roedd yn byw ei arwyddair “Elw â phleser”. Mi darodd marwolaeth ei fab hynaf Syr John yn galed ym 1614. Roedd yn brysur wrth ei waith yn ysgrifennu ei gyfrol am hanes y teulu Gwydir hyd at y pwynt hwnnw. Ac yna, mi stopiodd ysgrifennu. Mae'r llyfr yn dal heb ei orffen. Wedyn, mi dreuliodd y rhan fwyaf o'i amser yma yng Ngwydir. Ond, i'r diwedd, parhaodd i adeiladu enw mawreddog y teulu Wynn.

Rŵan, credaf fy mod wedi adrodd hanes popeth y gallwch fod eisiau gwybod am fy nheulu. A fydddech mor garedig â'm hesgusodi i fynd i eistedd am ychydig mewn heddwch rŵan? Hwyl fawr.”